



# Cylch rheoli perllan

## Dewis impyn

Dewiswch yr amrywiaeth o ffrwyth yr hoffech ei chael, gelwir hyn yn impyn. Darn ffrwytho a gymerwyd o'r amrywiaeth ffrwythau rydych chi am ei thyfu yw impyn. Gellir dewis yr amrywiaeth o ffrwyth ar gyfer blas, tymor neu addasrwydd i'r ardal. Unwaith y bydd amrywiaeth wedi'i dewis, cymerwch impyn o dyfiant y llynedd.


## Dewis cyff

Yn ei hanfod, mae cyff yn system wreiddiau y gellir uno coeden ffrwythau arall arni drwy impio. Defnyddir cyffion i gyfyngu ar uchder coed ffrwythau i alluogi i fwy o goed ffrwythau gael eu tyfu mewn ardal lai a gellir eu dewis ar gyfer ymwrthedd i glefydau. Wrth ddewis cyff, sicrhewch fod y cyff o rywogaeth sy'n perthyn i'r impyn rydych eisiau ei impio iddo.

## Impio

Unwaith y bydd cyff ac impyn wedi'u dewis, gellir eu himpio gyda'i gilydd. Impio yw'r dechneg o uno meinweoedd y ddwy rywogaeth fel y gallan nhw barhau i dyfu gyda'i gilydd. Yna, mae'r man sydd wedi'i impio'n cael ei rwymo â thâp a'i orchuddio â chwyr impio i'w selio.

Gweler ein **Nodyn gwybodaeth - Cyffion ac impio** am ragor o wybodaeth.





## Cynllunio perllan

Cyn plannu perllan, rhaid dod o hyd i fan addas ar ei chyfer, bydd yn rhaid i chi ystyried argaeledd golau, pridd a lle. Tynnwch lun a mesurwch ddyluniad sy'n gweddu orau i'ch ardal.

Gweler ein **Nodyn gwybodaeth - Cynllunio perllan** am ragor o wybodaeth.

## Paratoi'r ddaear

Unwaith y bydd dyluniad wedi'i greu, palwch dwll ar gyfer pob coeden, dylai hyn fod yr un maint â'r cyff. Wrth gloddio twll gallwch hefyd dynnu unrhyw greigiau mawr a allai amharu ar allu'r gwreiddiau i ledaenu. Yn dibynnu ar y math o bridd sydd gennych chi, gallwch hefyd ychwanegu deunydd organig i wella'r pridd yn ystod y cam hwn.

Gweler ein **Nodyn gwybodaeth - Gwella pridd ar gyfer perllan** am ragor o wybodaeth.

## Plannu coeden ffrwythau wedi'i himpio

Daliwch y goeden yn y twll yn ofalus a llenwi o amgylch y gwreiddiau gyda phridd. Wrth lenwi'r twll, ysgwydwch y goeden yn ysgafn er mwyn atal swigod aer rhag ffurfio yn y pridd. Dylai'r rhicyn lle mae'r cyff yn ymuno â rhan uchaf y goeden fod uwchben y ddaear. Ychwanegwch ychydig o domwellt o amgylch gwaelod y goeden, gan adael cylch clir o amgylch y bôn i'w atal rhag pydru a mynd yn rhy llaith.

Prif swyddogaethau tomwellt yw cynnal lleithder yn y pridd ac atal cystadleuaeth gan blanhigion eraill. Gall cylchoedd tomwellt lethu glaswellt a chwyn o amgylch y goeden sy'n eu hatal rhag cystadlu am faetholion a dŵr. Nid yn unig y mae tomwellt yn lleihau cystadleuaeth am faetholion, ond mae hefyd yn ychwanegu maetholion yn ôl i'r pridd gan y gall ffwng ei dorri i lawr yn hawdd.

Mantais arall cylch tomwellt yw ei fod yn gweithredu fel rhwystr gweledol, yn enwedig ar gyfer coed iau a llai. Mae hefyd yn sicrhau na wneir gwaith cynnal a chadw ar y tir, fel strimio, yn rhy agos at y coed, sy'n atal difrod.

## Diogelu'r goeden

Gellir gosod polyn wrth ymyl y goeden i'w chynnal yn ystod gwyntoedd cryfion. Rhowch y polyn yn y ddaear yn ofalus, gan osgoi'r gwreiddiau a'i chlymu'n llac iawn i'r goeden. Rhaid cadw golwg arno'n rheolaidd er mwyn sicrhau nad yw'r cwlwm a ddefnyddiwyd yn mynd yn rhy dynn o amgylch y goeden. Ar ôl ychydig fisoedd, os gellir gwthio'r goeden yn ysgafn pan gaiff ei datod a'i fod yn dychwelyd i'r safle unionsyth, gellir tynnu'r cwlwm a'r polyn.

Ffordd arall o ddiogelu'r goeden yw drwy osod amddiffyniad o amgylch gwaelod y goeden i ddiogelu'r boncyff rhag difrod a achosir gan anifeiliaid bach. Gall amddiffyniad fod yn amddiffyniad coed troellog plastig neu'n sgrin fetel a fydd yn diogelu'r rhisgl ifanc, allanol. Unwaith y bydd y goeden ychydig o flynyddoedd oed gallwch dynnu'r amddiffyniad gan mai dim ond y rhisgl ifanc sy'n tueddu i fod yn darged i anifeiliaid bach. Glanhewch a storiwch yr amddiffyniadau fel y gellir eu haildefnyddio.

## Tocio

Mae tocio yn gam pwysig wrth reoli perllannau, mae'n caniatáu i olau ac aer gyrraedd y goeden, sy'n lleihau achosion o glefydau. Mae'n helpu'r goeden i gynhyrchu ffrwythau o ansawdd gwell ac yn rheoli maint a siâp y goeden.

Gellir tocio coed afalau a gellyg unrhyw adeg o'r flwyddyn, ond maen nhw'n haws eu tocio pan fydd y goeden yn segur yn yr hydref neu'r gaeaf gan fod diffyg dail yn ei gwneud yn haws gweld beth rydych chi'n ei wneud. Dylid tocio ffrwythau cerrig fel eirin, ceirios ac eirin duon yn y gwanwyn/haf gan fod y sudd cynyddol yr adeg hon o'r flwyddyn yn atal haint y ddeilen arian, clefyd ffwngaidd angheuol.

Gweler ein **Nodyn gwybodaeth - Mathau o docio** am ragor o wybodaeth.



## Teneuo'r ffrwythau

Os oes gan eich coeden gnwd trwm (llawer o ffrwythau) mae'n syniad da teneuo'r ffrwythau. Mae teneuo'n caniatáu i olau'r haul a'r aer dreiddio i'r canghennau sy'n gwella'r gallu i aeddfedu ac yn gwella ansawdd a maint y ffrwythau sy'n weddill. Mae perygl hefyd y bydd canghennau'n torri os bydd pwysau'r ffrwythau'n mynd yn rhy drwm. I ddechrau, tynnwch y ffrwythau sydd wedi'u difrodi neu sy'n llai na'r gweddill. Mae'n syniad da gadael bwlch rhwng ffrwythau unigol er mwyn rhoi'r cyfle gorau iddynt dyfu.

## Cynaeafu a chasglu ffrwythau

Unwaith y byddan nhw'n aeddfed, gellir casglu, golchi a bwyta ffrwythau. Mae gwahanol goed ffrwythau'n aeddfedu ar adegau gwahanol o'r flwyddyn.

Math o ffrwyth	Amser gorau i'w cynaeafu
Afalau a gellyg	Awst - Tachwedd
Ceirios	Mehffin - Awst
Eirin	Awst - Medi
Afalau surion bach	Diwedd Medi - Hydref
Eirin tagu	Hydref - Rhagfyr



## Symud ffrwythau sydd wedi cwmpo

Dylid casglu ffrwythau sydd wedi cwmpo o'r ddaear i leihau'r risg o glefydau a allai effeithio ar y coed. Un o'r clefydau ffwngaid mwyaf cyffredin yw pydredd brown. Gall pydredd brown ladd coesynnau, lleihau twf y goeden a chyfyngu ar gynhyrchiant ffrwythau. Ni ddylid bwyta unrhyw ffrwythau sydd wedi'u heintio.

Mae cael gwared ar y ffrwythau sydd wedi cwmpo'n lleihau'r perygl y bydd y clefyd hwn yn ymledu i'r ffrwythau sy'n weddill a bydd yn diogelu cnwd y flwyddyn nesaf. Gellir ychwanegu'r ffrwythau sy'n pydru at domen gompost a'u hailddefnyddio fel gwrtaith ar ôl iddynt bydru'n llwyr.

## Chwilio am ragor o adnoddau dysgu, gwybodaeth, neu ddata?

Cysylltwch ag: [addysg@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](mailto:addysg@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk) os gwelwch yn dda, neu ewch i <https://cyfoethnaturiol.cymru/dysgu>

Am fformatau gwahanol; print bras, neu ieithoedd gwahanol, cysylltwch ag:  
[yholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](mailto:yholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk)  
0300 065 3000